# Arolygiad o dan Adran 28
# Deddf Addysg 2005

## Adroddiad ar ansawdd addysg yn

## Ysgol Gynradd Bontnewydd
## Bontnewydd
## Gwynedd
## LL55 2UF

**Rhif yr ysgol: 6612122**

**Dyddiad yr arolygiad: 30/11/09**

**gan**

**Gareth Wyn Roberts**
**17166**

**Dyddiad cyhoeddi: 04/02/10**

**O dan rif contract Estyn: 1101209**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a’r gymuned ehangach?**

**Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**

**Addysg grefyddol**
**Cyfnod Allweddol 1: Gradd 2 - Nodweddion da a dim diffygion pwysig**
**Cyfnod Allweddol 2: Gradd 2 - Nodweddion da a dim diffygion pwysig**
**Nodweddion da**

217. Yn y ddau gyfnod allweddol mae gan bron bob disgybl ddealltwriaeth dda o „gwestiynau mawr‟, megis „da a drwg‟ a „gwylltio‟n gyfiawn‟ gyda mwyafrif y disgyblion yn gallu diffinio eu hymateb i‟r dewisiadau a wnânt, a‟u cyfrifoldeb tuag at eraill.

218. Mae holl ddisgyblion y ddau gyfnod allweddol yn ymwybodol o ddathliadau Cristnogol, megis y Nadolig. Mae‟r mwyafrif hefyd yn ymwybodol o ddathliadau crefyddau eraill, megis Gŵyl Divali.

219. Mae gan fwyafrif disgyblion cyfnod allweddol 1 wybodaeth dda am gapel neu eglwys fel man addoli ynghyd â mannau addoliad crefyddau eraill, gyda mwyafrif disgyblion B2 yn arddangos gwybodaeth dda a pharch at arferion Hindŵaidd ac yn gwybod beth sy‟n digwydd mewn Mehndi .

220. Mae unigolion yng nghyfnod allweddol 1 yn gallu llunio gweddïau personol, byr o ansawdd da.

221. Mae bron bob disgybl yn B3 yn deall yr angen i gydnabod camgymeriad ac i ofyn am faddeuant. Gall y mwyafrif egluro camgymeriadau a wnaethant ar lafar ac yn ysgrifenedig. Mae bron bob un yn deall bod angen i edifeirwch fod yn onest.

222. Mae gan bron bob disgybl B4 wybodaeth dda o rai o arferion ac arteffactau Iddewiaeth a dônt i barchu traddodiadau crefyddol gwahanol i Gristnogaeth.

223. Mae holl ddisgyblion B5 yn deall pwysigrwydd rheolau, ac mae mwyafrif y disgyblion yn gallu creu, addasu a dehongli rheolau addas.

224. Mae holl ddisgyblion B6 yn ymwybodol o rôl elusen, megis Cymorth Cristnogol, ei ddiben, ei ddull o weithredu a‟r effaith da a gaiff ar y trydydd byd. Mae disgyblion galluocaf B6 yn gallu dehongli cysyniadau Beiblaidd, megis stori‟r Samariad Trugarog a‟i chymhwyso i‟r sefyllfa gyfoes.

**Diffygion**
225. Nid oes diffygion pwysig.